

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 Rhif 16

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (11 FFORDD CAERNARFON, Y FELINHELI, GWYNEDD) 2012

Gwnaed 14 Mawrth 2012

Yn dod i rym 21 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”), a phob pŵer galluogi arall (2):

1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr “y Cyngor” (*“the Council”*) yw Cyngor Gwynedd;

ystyr “y datblygwr” (*“the developer”*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi iddo;

ystyr “y plan a adneuwyd” (*“the deposited plan”*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd) 2012” sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru, a hwythau wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 14 Awst 2009 o dan y cyfeirnod C09A/0182/20/LL, yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra rhesog ar y plan a adneuwyd.

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd sydd wedi ei gwella a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog ar y plan a adneuwyd, a fydd yn briffordd a fydd at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(3), yn briffordd sydd i'w chynnal ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar ei chyfer.

4. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes bydd y datblygwr wedi darparu'r briffordd sydd wedi ei gwella a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhannau o briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(ch) hyd nes bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

5. Os, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf, yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weiniogion Cymru.

Dyddiedig 14 Mawrth 2012

G MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pweirau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.

(3) 1980 c.66

YR ATODLENI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n mesur 8.3 o fetrau ei hyd wrth 4.65 o fetrau ei lled, gyda chyfanswm yr arwynebedd yn 27.3 o fetrau sgwâr, sy'n ffurfio rhan o'r droetffordd, y llain ymyl a'r gilfan.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella

Rhan o droetffordd â siâp triogl, sy'n mesur 8.3 o fetrau ei hyd wrth 1.8 o fetrau ei lled.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

Bloc o bedwar rhandy preswyl ynghyd â lle i barcio ceir yn 11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (11 FFORDD CAERNARFON, Y FELINHELI, GWYNEDD 2012

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac gwella'r rhan o briffordd fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd. Bydd y Gorchymyn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os dirymir ef.

Yn ystod y 6 wythnos ar ôl 21 Mawrth 2012, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, yr Adran Reoleiddio, Gwasanaeth Gofal Trafnidiaeth a Strydoedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH yn ystod oriau gwaith arferol neu gellir eu cael yn

rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru CZ510-1-5-qA912055.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf;

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 21 Mawrth 2012 wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth, Cymru/ Gorchmynion Cau TCPA/ 2012).

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n mesur 8.3 o fetrau ei hyd wrth 4.65 o fetrau ei lled, gyda chyfanswm yr arwynebedd yn 27.3 o fetrau sgwâr, sy'n ffurfio rhan o'r droetffordd, y llain ymyl a'r gilfan.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella

Rhan o droetffordd newydd â siâp triogl, sy'n mesur 8.3 o fetrau ei hyd wrth 1.8 o fetrau ei lled.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

Bloc o bedwar rhandy preswyl ynghyd â lle i barcio ceir yn 11 Ffordd Caernarfon, Felinheli yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Gwynedd ar 14 Awst 2009 o dan y cyfeirnod C09A/0182/20/LL.